

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023

Cadeirydd:	Cynghorydd D.Price
Cynghorwyr:	D.Simpson, S.K.Hunt a/ac D.Hopkins
Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:	A.Edwards and T.Jones
Aelod Cyfetholedig:	E.Woollett
Swyddogion sy'n Bresennol:	M.Nicholls, W.Walters, W.Bramble, K.Jones, D.Clements, C.Moore, A.Eynon, S.Aldred- Jones, C.Griffiths, L.McAndrew, H.Rowlands a/ac C.Plowman

1. **CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd Blaenraglen Waith Pwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

4. **DATGANIAD BLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2023**

Derbyniodd yr aelodau ffurflen flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2022/23.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y broses o gymeradwyo cyfrifon ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Amlygwyd mai'r

Cyd-bwyllgor Corfforedig – Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd y Pwyllgor a oedd yn gyfrifol am dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon. Cadarnhawyd bod cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2022/23 wedi mynd drwy'r broses hon ar 26 Hydref 2023; ac fe'i llofnodir gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Nodwyd, oherwydd maint y trosiant, nad oedd gofyniad i gwblhau datganiad llawn o gyfrifon; Yn hytrach, bu'n rhaid i swyddogion gwblhau ffurflen flynyddol, a nodwyd yn Atodiad B o'r adroddiad a ddisbarthwyd.

Atgoffodd swyddogion y Pwyllgor mai'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2022/23 oedd £575,000, gyda'r ardoll gyfatebol yn cael ei chodi; a bod y gwariant ar gyfer y flwyddyn yn £190,600. Nodwyd bod manylion llawn y gwariant wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a ddisbarthwyd; roedd y ddogfen hon hefyd yn manylu ar danwariant o £384,800. Ychwanegwyd fod balans y tanwariant wedi'i drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

Eglurwyd ymhellach mai 2022/23 oedd y flwyddyn gyntaf o weithredu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; dyna'r rheswm pam yr oedd gwariant cyfyngedig. Nododd swyddogion hefyd fod £20k wedi'i ddyrannu i bob Is-bwyllgor o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ond ni ddefnyddiwyd yr arian hwn yn 2022/23. Nodwyd bod llawer mwy o weithgarwch wedi bod yn y flwyddyn bresennol o ran gwaith yr Is-bwyllgorau.

PENDERFYNWYD:

Dylid nodi'r adroddiad.

5. MONITRO ARIANNOL CHWARTER 2 2023/24 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

Derbyniodd y Pwyllgor monitro ariannol Chwarter 2 ar gyfer 2023/24.

Rhoddodd y Swyddog Cyllid drosolwg o'r manylion a gynhwysir yn y monitro ariannol, a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddisbarthwyd; amlygodd y ddogfen y gweithgarwch a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol bresennol. Nodwyd bod cyfanswm o £384.824 wedi'i drosglwyddo o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf i'r flwyddyn ariannol bresennol.

Nodwyd bod yr ardoll wedi'i diwygio ychydig wrth bennu'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/23; gosodwyd cyfanswm y swm a

gyllidebwyd ar £617.753. Eglurodd swyddogion fod llawer mwy o weithgarwch wedi digwydd yn y flwyddyn ariannol bresennol; fodd bynnag, roedd Swyddogion yn dal i ragweld tanwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r rhagolygon ar gyfer y gwahanol ffrydiau gwaith. Mynegwyd fod disgwyl i'r ffrydiau gwaith wario tua £5,000 yr un; ac eithrio trafnidiaeth, lle rhagwelwyd gwariant o £50,000.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau eu bod yn ceisio caffael rhywfaint o grantiau o hyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi rhai o'r ffrydiau gwaith; fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i orffen hyd yn hyn.

Amlygodd swyddogion fod cost is yn gysylltiedig â'r Swyddfa Rheoli Rhanbarthol oherwydd swydd wag y Rheolwr Busnes mis Mehefin 2023, ac nad oedd wedi'i lenwi eto.

Daeth i'r casgliad bod Swyddogion yn rhagweld cyfanswm gwariant o £322,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan arwain at danwariant posib a ragwelir o £295,542; Bydd unrhyw danwariant yn cael ei gynnal mewn cronfeydd wrth gefn, a bydd yn cefnogi'r gyllideb neu'r gweithgaredd yn y blynyddoedd i ddod.

PENDERFYNWYD:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

6. DIWEDDARIAD AR GYLCH GORCHWYL IS-BWYLLGORAU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

Darparwyd adroddiad ynghylch diwygio Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Eglurodd swyddogion y byddai'r gwelliant arfaethedig yn caniatáu i'r Aelod Cabinet gofynnol o'r un awdurdod arweiniol gwleidyddol i fod yn Gadeirydd cyfarfod yr Is-bwyllgor; naill ai yn absenoldeb yr Arweinydd neu ar gais yr Arweinydd hwnnw.

Holwyd a fyddai'r Arweinwyr yn cael gofyn i'r Aelod Cabinet perthnasol i fod yn Gadeirydd y cyfarfod yn barhaol. Amlygodd swyddogion mai'r drefn ddiodyn fyddai i'r Arweinydd perthnasol fod yn Gadeirydd yn y cyfarfod; fodd bynnag, byddai'r diwygiad yn caniatáu i'r Arweinydd unigol ddirprwyo'r cyfarfod yn ei gyfanrwydd i'r Aelod Cabinet, os yw'n dymuno gwneud hynny.

PENDERFYNWYD:

Diwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer Is-bwyllgorau'r Cydbwyllgor Corfforedig, fel y'i nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **ARCHWILIO CYMRU - ADRODDIAD CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CYMRU GYFAN**

Cyflwynwyd Adroddiad Archwilio Cymru i'r aelodau a oedd yn rhoi sylwebaeth ar gynnydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ledled Cymru.

Eglurwyd bod adroddiad Archwilio Cymru wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 o'r adroddiad a ddosbarthwyd; Roedd yr adroddiad yn cynnwys adran o ran y pum argymhelliad yr oedd Archwilio Cymru yn disgwyl gweld pob Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gwneud cynnydd pellach arnynt dros y 12-18 mis nesaf.

Croesawodd cynrychiolwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol yr argymhelliad mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

PENDERFYNWYD:

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CYNLLUN CORFFORAETHOL - BLAENORIAETHAU DRAFFT AR GYFER 2024/25**

Darparodd swyddogion adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori â rhanddeiliaid ar y camau gweithredu/camau y mae'r Pwyllgor yn bwriadu eu cymryd, er mwyn cyflawni'r amcanion lles a osodwyd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn 2024/25.

Esboniodd swyddogion y byddai'r tri phrif amcan a gymeradwywyd y llynedd fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol yn aros yr un fath ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Amlygwyd bod Swyddogion wedi trafod rhai o gyflawniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf mewn gweithdy diweddar, ac maent wedi llunio rhestr o'r camau nesaf; Manylwyd ar y camau hyn yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhodddwyd rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am y cam sy'n ymwneud â'r Ardal Fuddsoddi; er y byddai'r Ardal Fuddsoddi wedi'i lleoli yn y De Ddwyrain, roedd Swyddogion yn teimlo bod cyfle i archwilio a

chefnogi rhai o'r gweithgareddau a gynhwyswyd yn y Prosbectws Ardal Fuddsoddi ar gyfer y De Orllewin.

Nodwyd y byddai rhoi caniatâd i ymgynghori ar y blaenoriaethau hyn yn rhoi cyfle dros yr wythnosau nesaf i fyfyrion ar y gyllideb a pha flaenoriaethau y dylid eu datblygu yn 2024/25.

Holodd yr Aelodau ynghylch y dull a gymerir o ran y broses ymgynghori. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn cymryd yr un dull ag a ddefnyddiwyd ar gyfer proses ymgynghori'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys amserlenni.

Cydnabuwyd y byddai angen cynnal trafodaethau pellach ynghylch y gyllideb a chyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

PENDERFYNWYD:

Rhoi awdurdodiad i'r Prif Weithredwr gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar yr amcanion lles a'r camau gweithredu arfaethedig i'w cymryd yn 2024/25, er mwyn cyflawni'r amcanion lles.

9. **SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynodd swyddogion adroddiad a oedd yn ceisio awdurdod i ymateb i'r ymgynghoriad a gychwynnwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y safonau arfaethedig i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Eglurwyd bod Swyddogion wedi croeswiro Safonau'r Gymraeg yr oedd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi'u mabwysiadu yn erbyn y safonau a gynhwyswyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft a dderbyniwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw wahaniaethau yn y safonau, ac felly roeddent yn ceisio ymateb yn ffurfiol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg cyn diwedd yr ymgynghoriad parhaus; sy'n nodi y byddai'r Pwyllgor yn fodlon symud ymlaen i gam nesaf y broses.

PENDERFYNWYD:

Rhoi awdurdodiad i'r Prif Weithredwr ymateb yn ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg cyn 5 Ionawr 2024, gan nodi bod y Pwyllgor yn derbyn Safonau'r Gymraeg arfaethedig ar gyfer Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

10. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau bryd.

CADEIRYDD